

COITY TIP

TAITH TOMEN COETY

Circular walk/Approx 1 Km (0.6 miles)/20-30 minutes
Taith gylch/Tua 1 cilomedr (0.6 milltir)/20-30 munud



TREASURE TRAILS LLWYBRAU TRYSOR



TREASURE TRAIL TALES

Welcome to the Blaenavon World Heritage Site! Since the year 2000 this industrial landscape has been recognised as one of the world's top heritage treasures. This is because it is one of the very few places where you can follow the story of the industrial revolution. A story that was first carved into the landscape by an army of people, using little more than picks and shovels, some 200 years ago.

However, this industrial landscape does not reveal its secrets very easily so you will have to get out and discover

its hidden gems for yourselves! To help you, we've created this series of 'Treasure Trails', each one with a tale to tell, treasure to find and challenges to complete along the way.

We hope you have fun exploring the Blaenavon World Heritage Site. By the time you've walked our trails you'll be an expert in reading the landscape, seeing it for what it really is, full of character and historical interest - a true testament to human endeavour.

STORÏAU TEITHIAU TRYSOR


Croeso i Safle Treftadaeth Byd Blaenafon! Ers y flwyddyn 2000 mae'r tirlun diwydiannol hwn wedi'i gydnabod yn un o drysorau pennaf treftadaeth y byd. Y rheswm am hyn yw ei fod yn un o'r ychydig iawn o leoedd lle gallwch ddilyn stori'r chwyldro diwydiannol. Dyma sori a gafodd ei naddu gyntaf yn y tirlun gan fyddin o bobl yn defnyddio fawr ddim mwy na chaib a rhaw, tua 200 mlynedd yn ôl.

Er hynny, nid ar chwarae bach y mae'r tirlun diwydiannol yma yn datgelu ei gyfrinachau ac felly bydd rhaid

ichi fynd ati i ganfod ei drysorau cudd drosoch eich hunain! I'ch helpu, rydyn ni wedi creu'r gyfres yma o 'Teithiau Trysor', bob un â'i stori i'w hadrodd, ei drysor i'w ganfod a'i heriau i'w cwblhau ar hyd y ffordd.

Gobeithio y cewch chi hwyl yn crwydro Safle Treftadaeth Byd Blaenafon. Erbyn ichi gerdded ein llwybrau fe fyddwch yn arbenigwr mewn darllen y tirlun. Byddwch yn gweld beth sydd yno mewn gwirionedd, tirlun llawn cymeriad a diddordeb hanesyddol

- gwir brawf o ymdrechion dynol.



A Tip's Tale

Appearances can be deceptive. My cloak of grass and heather disguises the fact that I'm not a natural feature of this landscape. I'm an artificial hill - a tip formed by people dumping rocks and shale, the waste from decades of mining in the pit nearby.

You might be surprised to learn that as tips go I'm actually not that big. Local people used to call the area around here 'Little Egypt' because pyramid shaped tips, some of them three times my height, dominated the skyline. The bigger tips have all been cleared away now. Re-profiled and reclaimed. Transformed into places where people can go for a pleasant walk. I wonder what the miners would have thought about that?

There was a time when I feared that I would be cleared away like the others. The dangers posed by an unstable tip were keenly felt by people, especially following the disaster at Aberfan, but being small and one of the oldest tips around probably helped to spare me from the diggers.

Nature has long since returned to my slopes and many special plants are now living here. They have given me stability, just as I have given them a home.

People tell me that I'm a key part of this world important industrial landscape. I've been fenced off and they've built a trail so that you can see for yourself what makes me so special. No longer a blot on this landscape, I've gone from tip to treasure!



Stori Tomen

Nid wrth ei big mae prynu cyffyllog, medden nhw. Gall yr olwg gyntaf eich twyllo. Mae'r clogyn o laswellt a grug drosod fi yn cuddio'r ffaith nad ydw i'n rhan naturiol o'r tirlun yma. Bryn artiffisial ydw i - tomen a gafodd ei ffurfio wrth i bobl arllwys creigiau a siâl, gwastraff degawdau o waith gloddio yn y pwll gerllaw. Efallai y byddwch yn synnu cael gwybod mai un eitha bach ydw i, o'm cymharu â thomennydd eraill. Roedd y bobl leol yn arfer galw'r ardal yma yn 'Aifft Fach', am fod siâp pyramidaidd y tomennydd, rhai ohonyn nhw dair gwaith yn uwch na minnau, yn amlwg ar y gorwel. Mae'r tomennydd mwyaf

wedi'u symud erbyn hyn: mae'r tirlun wedi'i wastatáu ac wedi'i adennill. Mae'r tomennydd wedi'u troi'n fannau lle gall pobl fynd am dro dymunol. Beth fyddai'r glowyr wedi meddwl am hynny, tybed?

Roedd yna adeg pan oeddwn innau'n ofni cael fy ngwaredu fel y lleill. Roedd peryglon tomen ansad yn fyw iawn ym meddwl pobl, yn enwedig ar ôl y trychineb yn Aber-fan [Photo of Aberfan], ond mae'n debyg fy mod i wedi dianc rhag y jac codi baw am mai un bach ydw i, ac un o'r rhai hynaf yn yr ardal hefyd.

Mae natur wedi dychwelyd i'm llethrau ers tro byd a bellach mae llawer o blanhigion arbennig yn byw yma. Mae'r rhain wedi rhoi sefydlogrwydd imi, yn union fel rydw innau wedi rhoi cartref iddyn nhw. Mae pobl yn dweud fy mod yn rhan allweddol o'r tirlun diwydiannol yma sy'n bwysig drwy'r byd i gyd. Mae ffensys wedi'u codi o'm hamgylch i ac maen nhw wedi adeiladu llwybr er mwyn ichi weld drosoch eich hun beth sy'n fy ngwneud i mor arbennig. Nid dolur llygad sydd yma erbyn hyn: dwi wedi troi o domen yn drysor!

Coal pickers

The miners all knew that they would be in serious trouble with the mine owners if they got caught picking coal from the tips, but they did it anyway. After all how else could they provide fuel for our homes when they were out on strike? If you look carefully, you can see indentations where miners have been digging on the top of the tip.

Crafu am lo

Roedd y glowyr i gyd yn gwybod y bydden nhw mewn trafferthion difrifol gyda'r perchnogion glo pe baen nhw'n cael eu dal yn palu am lo ar y tomennydd, ond palu wnaethon nhw beth bynnag. Wedi'r cwbl sut arall allen nhw gael tanwydd i'w cartrefi pan oedden nhw allan ar streic? Os edrychwch yn ofalus, gallwch weld y pantiau lle bu'r glowyr yn palu ar ben y domen.



Coity Tip Challenge

Tips remain one of the major features of the landscape today. Once you get your eye in they become easier to spot as their tell-tale conical shape tends to give them away. Your challenge is to spot where you think tipping has taken place. First, you will need to find the Coity Tip Treasure Marker... it's a cast iron disc set in the ground, near some big rocks by a pond. Once you've found it stand on top and look around. Can you spot the other tips in the landscape? The answers to the challenge can be found on the back cover of this leaflet.



Her Tomen Coety

Mae tomennydd yn dal yn un o nodweddion pwysig y tirlun heddiw. Pan fyddwch chi wedi dod i arfer, mae'n haws eu nabod nhw, gan fod eu siâp conig yn tueddu i roi cliw ichi. Yr her ichi nawr yw gweld ble mae gwaith tipio wedi cael ei wneud, yn eich barn chi. Yn gyntaf, bydd angen i chi ddod o hyd i Nod Trysor Tomen Coety... sef disgen o haearn bwrw wedi'i gosod yn y ddaear, yn ymyl creigiau mawr wrth bwll dŵr. Ar ôl ichi ddod o hyd i'r ddisgen, sef wch arni ac edrychwch o'ch cwmpas. Allwch chi weld y tomennydd eraill yn y tirlun? Mae'r atebion i'r her i'w gweld ar glawr cefn y daflen yma.





SPOTTER'S GUIDE CANLLAW CYFLYM

Ten top spots
Deg peth gorau i'w gweld

The result of all that industrial activity is a rich mosaic of habitats for wildlife and a highly diverse range of species that have made the Blaenavon World Heritage Site their home. What might you expect to see along the way? To help you identify some of the inhabitants we've highlighted a few below. See if you can spot them too...

Canlyniad yr holl weithgarwch diwydiannol yma yw clytwaith cyfoethog o gynfinoedd i fywyd gwyllt ac amrywiaeth toreithiog o rywogaethau sedd wedi ymgyrtrefu yn y Safle Treftadaeth Byd. Beth allech chi ddisgwyl ei weld ar hyd y ffordd? I'ch helpu i nodi rhai o'r rhywogaethau, rydyn ni wedi amlygu ambell un isod. Faint ohonyn nhw welwch chi ...



Common Lizard
Madfall Gyffredin



Birdsfoot Trefoil
Hapsen Goeg



Common Frog
Broga Cyffredin



Coltsfoot
Carn yr Ebol



Pond Skater
Cychwr Cefnwyn



Lichen
Cen



Tiger Beetle
Chwilen Deigr y Coed



Cuckoo
Cwcu



Broom
Banhadlen



Meadow Pipit
Corthydd y Waun

How did you get on?
Sut daethoch chi ymlaen?

POINTS/PWYNT 30+ you're a top spotter!
rydych yn wylwr o frit!

good spotting
gwyliwr da

5-15 room to improve your spots!
lle i wella eich sgiliau gwylt!

<5 never mind better luck on the next Treasure Trail!
dim ots, gwell lwc ar y Llwybr Trysor nesaf!



COITY TIP TRAIL TAITH TOMEN COETY

Big Pit Pwll Mawr



★ Trail Starts Here
Llwybr yn Dechrau Yma

1. Blaenavon Heritage Railway

The railway you can see used to carry coal from local mines to the English Midlands and to Newport Docks for export worldwide.

2. Repairing the tip

If you look up at the tip from here you can see where the damage done by illegal off-road motorcyclists is in the process of being repaired by re-seeding with grass.

3. Coity Tip Pond

The pond was originally formed by run off water from the tip. Today it is a carefully managed environment that is host to a rich variety of wildlife.

4. Colonisation of the tip

Here's a good point to see how the tip has been colonised by very hardy varieties of grass.

5. After Aberfan

If you look to your right from this point you will see the remains of a tip that was re-profiled after the Aberfan disaster in order to make it safe.

6. Mile Pond

Take a short detour and walk up to the stile from which you can see Mile Pond, so called by local people because it is about a mile to walk around.

7. Top of the Tip

Well done you've reached the top of the tip! Don't forget to look out for the Coity Tip Treasure Marker and take the Top of the Tip Challenge.

8. Slim pickings

It's here that you should be able to make out the indentations where striking miners laboured to pick coal out of the colliery spoil.

9. Where it all started

There's no tip without a pit and from here you've got a great view of Big Pit, the former Blaenavon Colliery.

10. What a tip!

As you follow the path down you are walking on the oldest part of the tip and to your left is the incline up which the trams full of colliery spoil made their way before being tipped.

1. Rheilffordd Pont-y-pŵl a Blaenafon

Roedd y rheilffordd y gallwch ei gweld yn arfer cario glo o'r pyllau lleol i ganolbarth Lloegr ac i'r dociau yng Nghasnewydd i gael ei allforio ledled y byd.

2. Trwsio'r Domen

Os edrychwch i fyny ar y domen oddi yma, gallwch weld lle mae'r difrod a gafodd ei wneud gan feicwyr modur sy'n mynd oddi ar y ffordd yn anghyfreithlon yn cael ei atgyweirio trwy ail-hau'r borfa.

3. Pwll Tomen Coety

Yn wreiddiol, cafodd y pwll ei ffurfio gan dd, r ffo o'r domen. Heddiw mae'n amgylchedd sy'n cael ei reoli'n ofalus ac yn gartref i amrywiaeth toreithiog o fywyd gwyllt.

4. Coloneiddio'r domen

Dyma lecyn da i weld sut mae rhywogaethau caled o laswellt wedi dod i goloneiddio'r domen.

5. Ar ôl Aber-fan

Os edrychwch i'r dde oddi yma, byddwch yn gweld olion tomen a gafodd ei gwastatáu ar ôl trychineb Aber-fan i'w gwneud yn ddiogel.

6. Pwll y Filltir

Trowch oddi ar y prif lwybr am ychydig a cherded i fyny i'r sticil a gallwch weld Pwll y Filltir, sy'n cael ei alw felly gan y bobl leol am fod y daith gerdded o'i amgylch tua milltir o hyd.

7. Brig y Domen

Da iawn chi! Wedi cyrraedd y brig ac yn chwys domen efallai. Cofiwch chwilio am Nod Trysor Tomen Coety a cheisio ateb Her Tomen Coety.

8. Crafu byw

O'r fan yma fe ddylech chi allu gweld y pantiau lle bu'r glowyr yn llafurio i grafu glo mân o wastraff y lofa pan oedden nhw ar streic.

9. Y man cychwyn

Does dim tomen heb bwl, ac oddi yma mae gennych olygfa wych dros y Pwll Mawr, sef hen lofa Blaenafon.

10. Tomen o le!

Wrth ichi ddilyn y llwybr i lawr, rydych yn cerdded ar ran hynaf y domen ac ar y chwith ichi mae'r inclein lle byddai'r dramiau yn llawn gwastraff o'r lofa'n yn dringo cyn cael eu harllwys ar ben y domen.

BLAENAVON INDUSTRIAL LANDSCAPE

TIRLUN DIWYDIANNOL BLAENAFON

Coity Tip Trail

The Trail is a short circular walk of approximately 1 Km (0.6 miles) which is suitable for families and should take 20-30 minutes to complete. For your own safety it is recommended that you wear stout footwear and warm waterproof clothing.

Taith Tomen Coety

Mae'r Daith yn daith gerdded fer o ryw 1 cilometr (0.6 milltir) sy'n addas i deuluoedd a dylai gymryd 20-30 munud i'w chwblhau. Ar gyfer eich diogelwch eich hun, argymhellir y dylech wisgo esgidiau cadarn a dillad diddos a chynnes.

Information/Gwybodaeth

We hope you have fun exploring the Blaenavon World Heritage Site.

For more information visit www.visitblaenavon.co.uk or contact the Blaenavon World Heritage Centre on 01495 742333.

Rydym yn gobeithio y byddwch yn cael hwyl yn archwilio Safle Treftadaeth y Byd Blaenavon. Am fwy o wybodaeth ewch i www.visitblaenavon.co.uk neu cysylltwch â'r Ganolfan Treftadaeth y Byd Blaenavon ar 01495 742333.



Tel/Ffôn: 01495 742333
www.visitblaenavon.co.uk
blaenavon.tic@torfaen.gov.uk

Well done if you spotted tips on the horizon looking North East on the other side of the valley. Called the 'Canada Tips' they are one of the major features of the Blaenavon World Heritage Site.
Da iawn chi! os gwelsoch chi domennydd ar y gorwel wrth edrych tua'r gogledd-ddwyrain ar ochr arall y cwm. 'Tomennydd Canada' yw'r enw ar y rhain a dyma un o brif nodweddion Safle Treftadaeth Byd Blaenavon.

